

# Unig gyhoeddiad Duw

*“Yr ydym ni’n diolch i Dduw yn ddi-baid ar gyfrif hyn hefyd: eich bod chwi, wrth dderbyn gair Duw fel y clywsoch ef gennym ni, wedi ei groesawu, nid fel gair dynol ond fel yr hyn ydyw mewn gwirionedd, sef gair Duw, sydd hefyd ar waith ynoch chwi sy’n gredinwyr.” (adn. 13)*

## Beth am ddarllen 1 Thesalonïaidd 2:1–16 ac yna myfyrio

Mae i bob crefydd ei llyfr sanctaidd – i’r Hindŵiaid, y *Vedas*; mae gan y Mormoniaid *Llyfr Mormon*, a’r Mwslëmiaid y *Qur’an*. Mae hyn yn wir hefyd am y ffydd Gristnogol. Y mae’r Beibl yn eiddo i ni, a dyma’r “unig waith y mae Duw wedi ei gyhoeddi” yn ôl ei awdur. Mae strwythur a chredo’r Beibl wedi eu seilio ar y ffaith fod Duw ei hun wedi datguddio ei hun yn ei dudalennau. Gwaith y Philistiaid yw gwadu gwirionedd datguddiad dwyfol unigryw Duw. Yn ôl y rhain, maent am fynnu fod llyfrau eraill y dylid eu gosod ochr yn ochr â’r Beibl, gan na all un llyfr byth honni awdurdod datguddiad cyflawn.

Wrth i mi deithio, yr wyf wedi dod ar draws eglwys Gristnogol lle, yn ychwanegol at y Beibl, darllenir geiriau o’r *Qur’an*. Fe geir sawl syniad diddorol a delfrydol yn y *Qur’an*, ond nid hwn yw datguddiad awdurdodedig Duw i ddynoliaeth. Nid fy nymuniad yma yw cwestiynu llyfrau sanctaidd crefyddau eraill. Yn wir, rwyf yn ddiolchgar am y safonau moesol a synnwyr cyffredin sydd yn llawer ohonynt. Ond pan ddaw hi yn gwestiwn o awdurdod terfynol ffydd, a’r modd y mae’n bosibl i bechadur feddiannu bywyd tragwyddol, does yna ond un llyfr yn darlunio hynny – y Beibl.

Yn yr adran a ddarllenwyd heddiw, fe glywir sôn am y modd y bu i’r credinwyr yn Thesalonica dderbyn dehongliad Paul o’r gyfan a gyflawnodd fel geiriau oedd yn dod yn uniongyrchol iddynt oddi wrth Dduw. Mi fyddai’n beth bendigedig petai pob cynulleidfa eglwysig yn y byd yn meddu’r un agwedd ac yn gwrando ar ddarlleniad y Gair gyda’r un brwdfrydedd, gan eu bod yn disgwyl clywed llais Duw yn y geiriau. Yn anffodus, nid dyna yw’r sefyllfa.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 19:3–8; Jer. 23:16–32

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffordd y gwrandawodd y bobl ar eiriau Moses?
2. Beth yw nodweddion y gau broffwydi?

## Gweddï

O Dduw, tyrd â’r Eglwys unwaith eto i’r sylweddoliad fod y Gair, y Beibl, nid yn unig yn ysbrydoledig, ond yn awdurdodedig. Caniatâ i ni fyw o dan ei awdurdod. Yn enw Iesu. Amen.